

Crynodeb Gwirio Ansawdd West End Dental (Porthmadog) Dyddiad y gweithgarwch: 16 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mehefin 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o West End Dental (Porthmadog) fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Practis deintyddol preifat yw hwn, wedi'i leoli ym Mhorthmadog, Gogledd Cymru.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 16/05/22, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei wasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Asesiad risg amgylcheddol (gan gynnwys asesiad risg COVID-19 penodol)

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu'r dogfennau allweddol a restrir uchod a chadarnhau eu bod oll wedi'u cwblhau i safon ddigonol a'u dyddio.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y newidiadau a wnaed er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Dywedwyd y canlynol wrthym:

- Ar hyn o bryd, mae'r practis yn cadw'r drws ffrynt ar glo er mwyn atal unrhyw un sydd heb apwyntiad rhag mynd i mewn i'r practis.
- Mae apwyntiadau'n hirach, i ganiatáu ar gyfer glanhau ychwanegol rhwng cleifion, ac i atal presenoldeb mwy nag un claf ar y tro.
- Mae'r ystafell aros wedi'i haildrefnu i ganiatáu ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.
- Gofynnir i gleifion wisgo gorchuddion wyneb yn y practis ac mae arwyddion yn y practis yn annog cleifion i ddefnyddio'r peiriannau diheintio dwylo.
- Gofynnir i gleifion adael eu heiddo mewn blwch yn y dderbynfa er mwyn osgoi mynd ag ef i mewn i'r ddeintyddfa. .

Dywedodd rheolwr y practis wrthym, pan fydd apwyntiadau'n cael eu trefnu, bod cleifion yn cael eu hannog i ymweld â gwefan y practis i ddarllen yr holl wybodaeth berthnasol am COVID-19. Bydd staff y dderbynfa yn cyfleu'r holl wybodaeth berthnasol dros y ffôn i gleifion nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwyd.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd am y prosesau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig i drin cleifion sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19, neu gleifion yr amheuir eu bod yn bositif, yn ddiogel. Dywedodd wrthym fod cleifion yn cael cynnig ymgynghoriad dros y ffôn. Yn dilyn hyn, os oes angen apwyntiad, byddai staff yn neilltuo ystafell driniaeth benodol ar gyfer y driniaeth. Byddai'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn a byddai'r claf yn cael ei weld ar ddechrau neu ar ddiwedd y dydd, er mwyn osgoi rhyngweithio â chleifion eraill ac i ganiatáu ar gyfer glanhau dwfn ar ôl yr apwyntiad. Dywedwyd wrthym hefyd, er bod practis Porthmadog ar agor rhwng 9am a 5pm, mai oriau

agor cwmni deintyddol West End yw rhwng 8am ac 8pm. Mae hyn yn galluogi'r practis i aros ar agor yn hwyrach er mwyn darparu ar gyfer cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod staff gofal cwsmer a staff nyrsio sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis a bod yr aelodau o staff hyn yn gwisgo'r bathodynau perthnasol i ddangos hyn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod yn gweithio ar hyn o bryd i roi taflenni gwybodaeth dwyieithog ar waith yn y practis a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael i staff hefyd os oes angen.

Dywedwyd wrthym fod gan bob ystafell driniaeth offer ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol¹ a bod systemau hidlo aer wedi cael eu gosod mewn pob un. Dywedwyd wrthym fod pob ystafell driniaeth a ddefnyddir yn ystod y dydd naill ai wedi'i neilltuo ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol neu weithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol am y diwrnod cyfan, neu fod y diwrnod yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn, lle bydd yr ystafell yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol am hanner y diwrnod a gweithdrefnau nad ydynt yn cynhyrchu aerosol ar gyfer yr hanner arall.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiad er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth ar gyfer yr wythnos ddiwethaf
- Copi o'r polisi glanhau
- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Copïau o'r cofnodion gwiriadau dyddiol ar gyfer pob awtoclaf
- Polisi glanhau â llaw

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom ddogfennau amrywiol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Gwelsom hefyd dystiolaeth o amserlenni glanhau'r practis a pholisi glanhau, yn ogystal â chofnodion ar gyfer

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnyddiau.

dihalogi offer a chyfarpar y ddeintyddfa, a chopi o archwiliad diheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi'i gwblhau. Roedd y rhain i gyd yn gyflawn.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau. Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ar y defnydd cywir o fasgiau FFP3 a gwisgo a diosg. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan staff fynediad at borth hyfforddi ar-lein a'u bod wedi cwblhau eu hyfforddiant gloywi diogelu yn rhithwir.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau i bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu lanlwytho i system ar-lein electronig, y mae gan bob aelod o staff fynediad iddi. Rhoddir gwybod i'r staff am y diweddariad ac mae rheolwyr y practis yn gallu gweld pan fydd staff wedi darllen y diweddariad drwy'r system ar-lein.

Dywedodd staff wrthym eu bod, o ddechrau'r pandemig, wedi osgoi prinder stoc cyfarpar diogelu personol trwy gadw stoc tri mis ym mhob un o bractisau West End, sy'n cael ei ailgyflenwi'n fisol gan y rheolwr gweithrediadau cynorthwyol ar gyfer pob safle.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth ddiweddaraf i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Iŵneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisi/gweithdrefn cydsyniad gwybodus
- Copi o bolisi diweddaraf COVID-19

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau Rheoliadau Ymbelydredd Iŵneiddio (Cysylltiad Meddygol) cyfredol ac archwiliadau cardiau cofnod cyfredol. Gwelsom hefyd daflen wybodaeth gyflawn i gleifion a datganiad o ddiben, yn ogystal â pholisiau cyfredol ar gyfer COVID-19 a chydsyniad gwybodus.

Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Dywedodd y staff wrthym fod gan bob safle hefyd lyfr damweiniau a chofnod digwyddiadau i'w cwblhau, cyn adrodd i'r unigolion perthnasol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith mewn argyfwng meddygol (claf yn llewygu). Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod system ar waith lle mae'r goruchwyliwr nyrsys deintyddol ar y safle yn gwirio'r offer brys bob dydd a'r cyffuriau brys bob mis. Caiff y gwiriadau hyn eu cofnodi mewn llyfr log ac yna eu lanlwytho i system electronig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedodd y staff wrthym nad yw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer holl bractisau deintyddol West End wedi llunio adroddiadau Rheoliad 23 eto.² Dylid llunio'r adroddiad hwn yn flynyddol a darparu adroddiad ysgrifenedig o'r modd y cynhelir y practis deintyddol, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad Rheoliad 23 gael ei lunio cyn gynted â phosibl ar gyfer y practis deintyddol.

² Rheoliad 23 o Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Dylai'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis bob blwyddyn a llunio adroddiad yn unol â'r hyn a nodir o dan y rheoliad hwn.

Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle'r ydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael eu darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: West End Dental (Porthmadog)

Dyddiad y gweithgarwch: 16/05/2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Dywedodd y staff wrthym nad yw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer holl bractisau deintyddol West End wedi llunio adroddiad Rheoliad 23 eto. Dylid llunio'r adroddiad hwn yn flynyddol a darparu adroddiad ysgrifenedig o'r modd y cynhelir y practis deintyddol, fel yr amlinellir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad Rheoliad 23 gael ei lunio ar gyfer y practis deintyddol.	Rheoliad 23 - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017	Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio a chwblhau adroddiad Rheoliad 23 a chaiff ei gyflwyno i AGIC erbyn y dyddiad y gofynnwyd amdano. Wrth symud ymlaen, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gynnwys yn ein hadolygiad polisi blynyddol a'i adnewyddu yn unol â hynny.	Dr Trevor W Ferguson	16/08/2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Anthea Goodman, Rheolwr Gweithrediadau

Dyddiad:
01/06/22